| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

725/53

**Tystysgrif Lefel Mynediad**

**ASTUDIAETHAU GRAFFEG A DEFNYDDIAU**

**(Crefft Metel)**

P.M. DYDD IAU, 23 Mawrth 2006

(½ Awr)

**Arholwr yn unig**

| **Cyfanswm y marciau** | |
|---|---|

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Tanlinellwch yr ateb cywir **neu** ysgrifennwch yn y lleoedd gwag a ddarperir.

Os nad ydych yn gallu darllen cwestiwn, codwch eich llaw a bydd yr athro/athrawes yn ei ddarllen i chi.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae **pob** cwestiwn yn werth **pum** marc.


Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn*.

*Tanlinellwch yr ateb cywir* **neu** *ysgrifennwch yn y lleoedd gwag a ddarperir.*

**1.** Aloi anfferrus wedi'i wneud o gopr ac alwminiwm sy'n llwydaidd ei liw, sy'n cael ei ddefnyddio i wneud awyrennau.



Mae'r metel yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* Pres;

*(b)* Plwm;

*(c)* Arian;

*(ch)* Dwralwmin.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**2.** Mae rhai metelau'n hydrin. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu:

*(a)* cracio'n hawdd;

*(b)* cael eu taenu (*spread out*) yn llenni tenau;

*(c)* ymwrthod *(resist)* rhag torri;

*(ch)* dychwelyd i'r siâp gwreiddiol ar ôl plygu.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am orffeniadau sy'n cael eu gosod ar fetel.

Mae'r braslun isod yn dangos darn o emwaith.



*"Mae'r metel wedi'i orchuddio â llwch gwydr (powdered glass) ac wedi'i wresogi."*

Mae'r gorffeniad yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* peintio;

*(b)* tunplatio;

*(c)* enamlo;

*(ch)* lacro.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**4.** Mae'r lliw tymheru cywir ar gyfer offer turn yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* gwellt golau;


*(b)* gwellt tywyll;

*(c)* porffor;

*(ch)* glas tywyll.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**5.** Mae'r erfyn marcio a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r erfyn *(tool)* a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* sgwâr peiriannydd;


*(b)* cwmpas mesur;

*(c)* medrydd dyfnder;

*(ch)* medrydd arwyneb.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**6.** Mae'r erfyn marcio a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r erfyn a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* sgrifell;

*(b)* caliperau jenni;


*(c)* pâr o dramelau;

*(ch)* pwnsh canoli.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**7.** Mae'r erfyn marcio a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r erfyn marcio a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* plât arwyneb;


*(b)* medrydd arwyneb;

*(c)* sgwâr peiriannydd;

*(ch)* sgwâr canoli.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**8.** Mae'r erfyn marcio a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r erfyn marcio a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* blociau 'v';

*(b)* blociau 'w';


*(c)* blociau 'x';

*(ch)* blociau 'y'.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**9.** Mae'r braslun isod yn dangos ebill dril.



Mae'r ebill dril yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* ebill canoli;


*(b)* ebill tro;

*(c)* ebill fflat;

*(ch)* ebill gwrthsoddi.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**10.** Mae'r braslun isod yn dangos erfyn.



Mae'r erfyn a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* micromedr;


*(b)* fernier;

*(c)* medrydd mesur;

*(ch)* cramp 'G'.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**11.** Mae'r braslun isod yn dangos eingion.




Mae'r saeth (A) yn pwyntio at **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* twll pwnsio;


*(b)* twll offer;

*(c)* pig;

*(ch)* bloc torri.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**12.** Mae'r eitem a ddangosir isod yn cael ei defnyddio mewn gwaith gof.



Mae'r eitem a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* bloc darfath *(swage block)*;

*(b)* pannwr;


*(c)* fflatiwr;

*(ch)* set oer.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**13.** Mae'r braslun isod yn dangos turn.




Mae'r saeth (A) yn pwyntio at **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* pen byw;


*(b)* pen llonydd;

*(c)* postyn offer;

*(ch)* sgriw dywys.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**14.** Mae'r braslun isod yn dangos erfyn turn.



Mae'r erfyn turn yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* brasnaddell;


*(b)* erfyn partio;

*(c)* erfyn gorffennu;

*(ch)* erfyn nwrlio.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**15.** Mae darn o offer sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwaith morthwyl yn cael ei ddangos isod.



Mae'r darn o offer a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* bonyn pig;


*(b)* bonyn twmffat/twndis;

*(c)* bonyn crychu;

*(ch)* bonyn ongl lem.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**16.** Mae erfyn sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwaith morthwyl yn cael ei ddangos isod.



Mae'r erfyn a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* morthwyl codi;

*(b)* gordd ben wy;

*(c)* gordd godi;


*(ch)* morthwyl planisio.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

 **Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**17.** Mae'r braslun isod yn dangos ymyl darn o fetel yn cael ei lanhau.



Mae'r broses lanhau uchod yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* croesffeilio;


*(b)* darffeilio;

*(c)* fflatffeilio;

*(ch)* ffeilio gorffennu.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

**18.** Mae'r braslun isod yn dangos erfyn.



Mae'r erfyn a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* daliwr cyffion dei *(die stock holder)*;

*(b)* tyndro tap;


*(c)* tap tapr;

*(ch)* dei hollt.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**19.** Mae'r peiriant a ddangosir isod yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell Ddylunio a Thechnoleg.



Mae'r peiriant a ddangosir yn **un** (1) o'r canlynol:

*(a)* dril pedestal;

*(b)* peiriant melino fertigol;


*(c)* peiriant melino llorweddol;

*(ch)* peiriant bwffio.

**Tanlinellwch** yr ateb cywir. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**20.** Mae'r braslun isod yn dangos peiriant.



Ar y llinellau isod, **ysgrifennwch bump** (5) o reolau diogelwch y dylech chi gadw atyn nhw wrth ddefnyddio'r peiriant. [5]

(i) ....................................................................................................

....................................................................................................

(ii) ....................................................................................................

....................................................................................................

(iii) ....................................................................................................

....................................................................................................

(iv) ....................................................................................................

....................................................................................................

(v) ....................................................................................................

....................................................................................................